



Teithiau Cerdded
Thematig Rhif 2

Llwybr Pwll Crewil

Llwybr Pwll Crewil cip cyflym

Pellter

4 cilomedr

Amser

2 awr

Llwybr Pwll Crewil

Dewch ar draws coetiroedd, porfeydd agored a chynefinoedd glannau afonydd ar y daith gerdded ddymunol hon ar hyd llwybrau cerdded a llwybrau ceffylau newydd a grëwyd yng nghyffiniau Bethlehem.

Edrychwch am

Beth o'r bywyd gwyllt gorau sydd i'w weld yn Ne-orllewin Cymru fel y barcud coch, glas y dorlan, gwenoliaid y glennydd a brithyll yn ogystal â digonedd o flodau gwyllt a choed parcdir trawiadol.

Cofiwch

Dilynwch yr arwyddion marcio Llwybr a chadwch at ymylon y caeau wrth ichi fynd ar eich taith i gyfeiriad clocwedd, gan ddechrau ar ben uchaf coedydd Allt y Saeson.



Sylwch

Nifer cyfyngedig iawn o leoedd parcio sydd ar gael ar ddechrau'r daith (1 grid map cyfeirnod SN 693256). Mae'n bosib parcio ger swyddfa bost Bethlehem a cherdded i fyny at y man cychwyn. Mae'r tir yn gallu bod yn anwastad iawn ac mae camfeydd a bryniau serth i'w dringo.

Dewch yn barod

Rydym yn argymhell fod gennych fap a chwmpawd a'r sgiliau i'w defnyddio, yn ogystal ag esgidiau a dillad addas ar gyfer cyflwr y tir a'r tywydd.



Y DAITH

Mae'r daith yn cychwn ger porthdy Dan yr Allt. ❶
Dilynwch y llwybr cerdded ar hyd ymylon y coetir nes ichi gyrraedd camfa ar y chwith. Croeswch y gamfa i fynd i mewn i'r coetir a dilynwch y llwybr ar hyd gwaelod y coetir.

❷ Coetir Allt y Saeson

Mae'r coetiroedd hyn yn cynnwys nifer o rywogaethau o blanhigion tir fel clychau'r gog a suran y coed, sy'n dweud wrthym fod y coedydd hyn yn hynafol. Mae Coetir Allt y Saeson yn cynnig cynefin rhagorol ar gyfer bywyd gwyllt o bob math, gan gynnwys moch daear sydd wedi creu cynefinoedd mawrion o'r enw setiau.

Mae Allt y Saeson hefyd yn safle o ddiddordeb hanesyddol dirgel. Yng nghudd yn y coed ychydig bellter oddi ar y llwybr mae carreg fedd heb enw arni. Mae o leiaf tair stori wahanol yn esbonio hanes y carreg. Mae un yn disgrifio sut y cafodd dyn ifanc oedd yn gweithio ar adeiladu Pont Allt y Saeson ei ladd gan carreg yn syrthio o'r canllaw. Cymerodd ei ddyweddi brudd ei bywyd ei hun, ac o'r herwydd ni ellid ei chladdu ym mynwent yr eglwys. Fe'i claddwyd yn ddiweddarach yn y coed, gyda'r carreg a laddodd ei chariad yn carreg fedd iddi. Mae pont Allt y Saeson, a gafodd ei hadfer yn ddiweddar gan ddefnyddio technegau adeiladu priddgalch traddodiadol hefyd yn werth ei gweld ar y llwybr hwn.

Wedi ichi gyrraedd y caeau agored, dilynwch ffin y cae, gyda'r clawdd ar y chwith ichi. Ym mhen pella'r cae, trowch i'r dde a chadwch at ffin y cae ar y dde nes ichi gyrraedd gât fechan. Ewch drwy'r gât a dilynwch y llwybr cerdded ar y dde sy'n arwain at yr afon. Dilynwch ymyl yr afon am beth amser nes ichi gyrraedd trac yn arwain i fyny i'r dde.

❸ Rhodfa glan yr afon

Cafodd glan yr afon ei ffensio y tu allan i'r hawl tramwy cyhoeddus newydd gyda chymorth gan gynllun grant Tirwedd Tywi a weinyddir gan brosiect Tywi Afon yr Oesoedd. Codwyd y ffens er mwyn gwarchod glan yr afon rhag cael ei erydu gan dda byw a hefyd i gynnig gwarchodaeth i fywyd gwyllt. Mae hefyd yn gwella ansawdd y dŵr trwy atal tail a gwrtaith rhag mynd i mewn i'r afon.

Gellir gweld sawl rhywogaeth o fywyd gwyllt ar hyd glan yr afon, gan gynnwys trochwyr, y crychydd a gwahanol hwyaid ac adar hirgoes. Mae'r glas y dorlan swil i'w weld yn aml yn ddim mwy na fflach disglair o las a gwyrdd wrth iddo hedfan yn gyflym ac isel dros y dŵr. Mae'r glas y dorlan yn mwynhau cysgod canghennau crog ar hyd yr afon a'r cyfleoedd bwydo rhagorol sydd i'w cael ym ❹ Mhwll Crewil. Mae'r glannau tywodlyd ar hyd yr afon yn lleoedd delfrydol i'r glas y dorlan nythu ynddynt.



Os ydych yn ffodus iawn efallai y gwelwch y dyfrgi anodd i'w weld. Mae ansawdd uchel y dŵr a'r cyflenwad helaeth o bysgod yn Afon Tywi yn ei gwneud yn un o'r goreuon yng Nghymru i ddyfrgwn fyw a bridio ynddynt.

Dilynwch y trac fydd yn mynd â chi drwy fuarth Fferm Dolau. Wedi ichi fynd drwy'r buarth hwn, dilynwch y llwybr ar y dde fydd yn ymuno â'r llwybr ar ddechrau'r daith. Dilynwch y llwybr hwn yn ôl i Borthdy Dan-yr-Allt.

❺ Stâd Danyralt

Wrth ichi agosáu at Fferm Dolau daw'r nodweddion parcdir sy'n eich amgylchynu yn y tirlun yn amlwg, gyda phocedi o goetir, clystyrau o goed a choed unigol mewn caeau. Crëwyd y cynllun "Tirlun Hardd" hwn gan Stâd Danyralt ac roedd yn boblogaidd iawn yn y 18fed a'r 19eg Ganrif.

Cafodd Plasty Danyralt ei ddinistrio'n ddamweiniol gan dân yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae rhai olion o Blasty Danyralt fel y gerddi murog i'r chwith o'r llwybr wrth ichi ddod at Fferm Dolau.

Gwelwyd Cloc y Dref (Moschatel), blodyn gwyllt coetrol brodorol, ar hyd un o'r hen gloddiau yn y parcdir ar lawr y dyffryn, sy'n awgrymu y gallai'r cloddiau hyn fod yn strimyn o hen goetir neu eu bod yn gloddiau a blannwyd amser maith yn ôl.



Camu ymhellach i Ddyffryn Tywi

Mae Llwybr Pwll Crewil yn un o gyfres o 6 thaith gerdded thematig a grëwyd i annog pobl i fwynhau Dyffryn Tywi. Gwnaed y teithiau cerdded yn bosib diolch i ffermwyr a thir berchnogion lleol a Phrosiect Tywi Afon yr Oesoedd sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am unrhyw un o deithiau cerdded thematig Tywi Afon yr Oesoedd, ewch i www.tywiafonyroesoedd.org.uk



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI